

201- Rhif (Cy.)

201- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i
Gyffordd 13 (Abergwyngregyn),
Gwynedd) (Cau Croesfannau'r
Llain Ganol) 201-

The A55 Trunk Road (Junction 12
(Talybont) to Junction 13
(Abergwyngregyn), Gwynedd)
(Closure of Central Reservation
Crossings) Order 201-

Gwnaed 201-
Yn dod i rym 201-

Made 201-
Coming into force 201-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police, hereby make the following Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i Gyffordd 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd) (Cau Croesfannau'r Llain Ganol) 201- a daw i rym ar **** 201-.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 12 (Talybont) to Junction 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd) (Closure of Central Reservation Crossings) Order 201- and it comes into force on ***** 201-.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "y gefnffordd" ("the trunk road") yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

"central reservation" has the meaning given to "central reservation" in Schedule 1 of the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016.

mae i "llain ganol" yr ystyr a roddir i "central reservation" yn Atodlen 1 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016.

"the trunk road" ("y gefnffordd") means the A55 Chester to Bangor Trunk Road.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff unrhyw berson beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, sy'n mynd naill ai ar gerbyttfordd tua'r gorllewin neu gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd, ymuno â'r gerbyttfordd gyferbyn drwy groesfannau llain ganol y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 13 (Abergwyngregyn) yn Sir Gwynedd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weiniogion Cymru.

Dyddiedig

***** 201*

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 12 (TAL-Y-BONT) I GYFFORDD
13 (ABERGWYNGREGYN), GWYNEDD) (CAU
CROESFANNAU'R LLAIN GANOL)
201-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd pob cerbyd sy'n teithio tua'r gorllewin a thua'r dwyrain ar Gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 13 (Abergwyngregyn), yn Sir Gwynedd, rhag ymuno â'r gerbyttfordd gyferbyn drwy groesfannau'r llain ganol.

Mae'r Gorchymyn wedi ei gynllunio i ddod i rym i gyd-fynd â'r gwaith i gau'n ffisegol groesfannau'r llain ganol sy'n ffurfio rhan o waith y prif gynllun ac y mae disgwyl iddo gael ei wneud yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 24 Ebrill 2019, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9RZ

Prohibition of Entry

3. No person may cause or permit any vehicle proceeding in either the westbound or eastbound carriageway of the trunk road to enter the opposite carriageway through the central reservation crossings of that length of the trunk road between Junction 12 (Talybont) and Junction 13 (Abergwyngregyn) in the County of Gwynedd.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

***** 201*

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 12
(TALYBONT) TO JUNCTION 13
(ABERGWYNGREGYN), GWYNEDD)
(CLOSURE OF CENTRAL RESERVATION
CROSSINGS) ORDER 201-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984

The effect of the proposed Order will be to prohibit all westbound and eastbound vehicles travelling on the A55 Trunk Road between Junction 12 (Talybont) and Junction 13 (Abergwyngregyn), in the County of Gwynedd, from entering the opposite carriageway through the central reservation crossings.

The Order is planned to come into force to coincide with the works to physically close the central reservation crossings which form part of the main scheme works and is expected to be carried out later in the year.

During a period of 21 days from 24 April 2019, a copy of the proposed Order, together with a plan and a Statement of Reasons for the making of the Order, may be inspected free of charge, during normal office hours at Welsh Government Offices, Sarn Mynach, Llandudno Junction, Conwy LL31 9RZ and at Gwynedd Council, County Offices, Shire Hall Street,

ac yng Nghyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH neu gellir cael copïau yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1278612.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 15 Mai 2019. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth ddrafft', 'Offerynnau statudol lleol drafft', 'Gorchmynion Traffig Parhaol').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH or may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA1278612.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 15 May 2019. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft legislation', 'Draft local statutory instruments', 'Permanent Traffic Orders').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government